

Astudiaeth Achos: Trefnydd cynadleddau/arddangosfeydd - Gill

Beth ydych chi'n ei wneud?

Rwy'n drefnydd cynadleddau ac arddangosfeydd. Rwy'n rheoli lleoliad cynadledda. Rwy'n gwerthu cyfleusterau'r lleoliad ac yn dod â chleientiaid i'r ganolfan gynadledda, ac rwy'n eu helpu i gynllunio a threfnu eu digwyddiadau.

Rwy'n gweithio gyda nhw i greu digwyddiad sy'n bodloni eu gofynion.

Yn ogystal â gwneud tasgau eraill sy'n ymwneud â rhedeg busnes, er enghraifft yr elfennau ariannol a hyrwyddo, mae cryn dipyn o fy ngwaith yn ymwneud â rheoli'r ganolfan.

Hefyd, mae gen i rôl bwysig yn y gwaith o groesawu a chyfarach cleientiaid a datblygu perthynas dda â nhw, er mwyn iddynt deimlo'n gartrefol yma a dod yn ôl i ddefnyddio ein cyfleusterau ni eto.



Beth yw'ch cefndir?

Cefais fy addysg mewn ysgol ramadeg lle roeddwn i'n canolbwyntio ar wyddoniaeth. Roeddwn i'n mwynhau gwyddoniaeth, ond roeddwn i hefyd yn berson eithaf ymarferol a oedd yn mwynhau gweithgareddau creadigol hefyd. Pan oeddwn i'n chwilio am yrfa roeddwn i'n awyddus i ddod o hyd i rywbeth lle byddwn yn cael defnyddio'r holl elfennau hynny.

Fe ddes i o hyd i swydd o'r fath ym maes ffotograffiaeth ymchwil wyddonol, a oedd yn swydd wyddonol a chreadigol. Ar ôl astudio ar gyfer fy arholiadau Safon Uwch, es i ymlaen i'r coleg a chefais sawl diploma mewn ffotograffiaeth dechnegol a gwyddonol. Gweithiais yn y maes hwnnw am sawl blwyddyn. Caeodd yr adran ffotograffiaeth yn y cwmni roeddwn i'n gweithio iddo, ac es i ymlaen i helpu â gwaith cyhoeddi a dylunio graffeg tra oeddwn yn datblygu fy sgiliau rheoli.

Symudais ymlaen i fod yn arweinydd tîm, yna'n oruchwylydd, ac yna'n rheolwr. Cododd cyfle yn y cwmni pan ofynnwyd i mi greu busnes masnachol yn trefnu digwyddiadau i gwmnïau eraill yn ein canolfan gynadledda.

Bedair blynedd yn ddiweddarach rydym yn dal i dyfu a llwyddo ar ran y cwmni.

Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Mae angen i chi fod yn berson bwyiog sydd â diddordeb mewn gweithio gyda phobl, eich cleientiaid a'ch cydweithwyr.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwybod eich bod yn berson trefnus ac egniol, oherwydd mae'r gwaith y byddwch chi'n ei wneud yn eithaf cymhleth ac mae'n gallu achosi tipyn o straen ar brydiau. Felly, mae bod yn berson egniol yn sicr yn helpu.

Mae angen i chi fod yn ymwybodol o bwysigrwydd y cwsmer, mae angen i chi fod yn awyddus i helpu eich cwsmeriaid i gael canlyniad da, ac mae angen i chi gael y gallu i ddarganfod gan eich cleientiaid beth yw eu gofynion er mwyn i chi allu troi hynny'n ddigwyddiad llwyddiannus ar eu cyfer.

Mae'n ddefnyddiol os ydych chi'n gallu meddwl ar eich traed, oherwydd yn aml bydd cleientiaid yn dod atoch chi gyda phob math o ofynion y mae angen eu datrys yn gyflym, ac mae'r gallu i feddwl yn greadigol yn ddefnyddiol iawn.

Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Mae'r swydd hon yn datblygu sgiliau sylfaenol megis trefnu, rheoli amser, canolbwyntio ar anghenion y cwsmer a sicrhau ansawdd.

Gallwch ddefnyddio'r sgiliau hyn mewn llawer o feysydd eraill, er enghraifft rheoli prosiectau. Pan fydd gennych y sgiliau y mae eu hangen i drefnu cynhadledd fawr, gallwch eu defnyddio wrth reoli unrhyw brosiect arall.

Gallech redeg eich busnes bach eich hun, neu gallech drosglwyddo eich sgiliau i bobl eraill sy'n datblygu'r diwydiant drwy ddarparu gwasanaethau ymgynghori neu hyfforddi. Gallech helpu pobl eraill sy'n trefnu digwyddiadau i wneud gwaith recriwtio.

Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Mae hwn yn ddiwydiant sy'n tyfu ac mae ein cwsmeriaid yn disgwyl i ni ddiwallu gofynion newydd ac ymateb i'r datblygiadau sydyn sy'n digwydd ym maes technoleg.

Os bydd angen gwneud newidiadau, mae'n rhaid i ni gyflogi pobl er mwyn dilyn y dechnoleg ddiweddaraf a gwneud yn siwr ei bod ar gael i'n cleientiaid. Y naill fis ar ôl y llall, maen nhw'n dod atom â disgwyliadau uwch o'r cyfleusterau a fydd ar gael iddynt yn y ganolfan yn ystod eu cynhadledd neu eu harddangosfa. Mae angen i ni wneud yn siwr ein bod ni yno, wedi ein hyfforddi ac yn barod amdanyn nhw, yn hytrach nag yn dilyn ar eu hôl.

Beth yw heriau mwyaf eich swydd?

Mae llawer o heriau'n gysylltiedig â helpu cleient i gynnal cynhadledd neu arddangosfa fawr. Mae cymaint o elfennau'n rhan o bob un digwyddiad.

Mae'n rhaid i chi feddwl am y lletygarwch, yr arwyddion, y bathodynau a'r gweithgareddau cofrestru. Mae'n rhaid i chi feddwl hefyd am sut i drefnu'r ardal ac a oes angen cymorth ar gleientiaid â'u gofynion o ran offer clyweled.

Os yw'n ddigwyddiad mawr iawn neu os oes pobl bwysig iawn yn mynychu, er enghraifft swyddogion y llywodraeth neu aelod o'r teulu brenhinol, mae'n rhaid i chi feddwl am ddiogelwch. Yn aml, mae trefniadau diogelwch yn cael eu gwneud ar y funud olaf oherwydd ei bod yn anodd cael gwybodaeth, felly mae angen delio â sawl tasg ar y tro er mwyn sicrhau bod yr holl bethau hynny yn eu lle.

Mae hynny'n gallu bod yn dipyn o her ac achosi tipyn o straen, a byddwn i'n dweud mai dyna un o'r pethau anoddaf ond mwyaf plaserus hefyd gan fod teimlad o foddhad i'w gael ar ôl gorffen y gwaith. Mae'n her ar y naill law, ond ar y llaw arall dyma un o'r rhannau o'r swydd sy'n rhoi'r boddhad mwyaf.

Mae llety yn agwedd bwysig arall, ac yn aml iawn mae'n bosibl y bydd y bobl sy'n mynychu'r digwyddiad wedi eu gwasgaru mewn gwahanol westai a bydd angen trafnidiaeth arnynt. Felly, mae lluo o wahanol dasgau i'w gwneud wrth greu un digwyddiad, ac mae hynny'n dipyn o her.

Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Mae digon o gyfleoedd ar gael. Mae'n fusnes sy'n tyfu'n gyflym.

Drwy fynd i weithio yn y diwydiant gwestai a hamdden, gallech fynd yn eich blaen i arbenigo mewn trefnu cynadleddau ac arddangosfeydd.

Bydd cyfleoedd yn codi am flynyddoedd - mae'n faes sy'n tyfu drwy'r amser.

Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Fy hoff beth am y swydd yw rhyngweithio â fy nghleientiaid a'r berthynas bersonol rydych chi'n ei datblygu; rydych chi'n dod i adnabod eich cleientiaid fel ffrindiau. Mae hynny'n braf iawn.

Rwy'n hoffi elfen greadigol y gwaith. Mae angen bod yn eithaf creadigol i drefnu digwyddiad mawr - rydych chi'n gweithio gyda'r cleient i greu'r canlyniad terfynol.

Rwy'n mwynhau rhoi gwasanaeth da. Mae'n deimlad braf pan fyddwch wedi gwneud rhywbeth da ar gyfer eich cwsmer a phan fydd y cwsmer yn diolch i chi ac yn dweud ei fod yn fodlon iawn â'r gwaith rydych wedi'i wneud ar ei gyfer.

Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

A bod yn onest, alla i ddim meddwl am unrhyw beth rwy'n ei gasáu am y swydd.

Pe bai'n rhaid i mi ddewis un neu ddau o bethau, byddwn i'n dweud bod gorfod gweithio oriau hir yn gallu bod yn flinedig ar brydiau. Mae angen ymrwymiad i ddiwallu gofynion y cwsmer - mae'n rhaid i chi fod ar gael iddynt drwy'r amser oherwydd mae angen eich cymorth chi arnynt o hyd. Mae eich diwrnodau'n gallu bod llawn ac yn brysur iawn.

Dydw i ddim yn gallu meddwl am unrhyw beth nad wyf yn ei hoffi o ddifrif - mae'n ddiwydiant da.

Beth yw'ch uchelgeisiau?

Fy uchelgeisiau yn y swydd hon yw cyrraedd y targedau a gafodd eu gosod ddwy neu dair blynedd yn ôl yng nghynllun busnes pum mlynedd y ganolfan.

Hoffwn i weld y cynllun hwnnw'n dwyn ffrwyth er mwyn i ni allu cyflawni ein nod.

Efallai yr hoffwn i gael her arall o fewn y cwmni - byddwn i'n barod i gymryd yr her honno.

Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Y peth cyntaf y byddwn i'n ei awgrymu yw y dylech chi ddod o hyd i gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am y gweithgareddau dan sylw. Gofynnwch i bobl, siaradwch â phobl a soniwch am y gwaith drwy'r amser - gwnewch ychydig o waith ymchwil ar eich pen eich hun.

Yna bydd cyfle gennych i ganolbwyntio ar y pethau hynny y bydd eu hangen arnoch er enghraifft pynciau i'w hastudio yn yr ysgol a sgiliau defnyddio bysellfwrdd, ac o bosibl cael profiad gwaith mewn canolfan gynadledda.

Ceisiwch gael cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am y diwydiant, a bydd cyfleoedd y gallwch chi symud ymlaen iddynt yn codi'n naturiol.

Diwrnod ym mywyd

7:30 yb - 8:30 yb

Dechrau'r gwaith yn gynnar o bryd i'w gilydd i ddiwallu anghenion cleientiaid.

8:30 yb - 9:30 yb

Croesawu a chyfarach cleientiaid.

9:30 yb - 10:30 yb

Trafod gofynion y diwrnod gyda chydweithwyr.

10:30 yb - 11:30 yb

Delio ag ymholiadau gan gwsmeriaid a chynllunio digwyddiadau.

11:30 yb - 12:30 yb

Cwrdd â chleientiaid i drafod manylion.

12:30 yb - 1:30 yb

Cinio (fel arfer wrth y ddesg neu gyda chleient).

1:30 yb - 3:30 yb

Gwneud gwaith marchnata a gwerthu.

3:30 yb - 4:30 yb

Trafod ac awdurdodi gwariant.

4:30 yb - 5:30 yb

Trafod y cynlluniau ar gyfer digwyddiad trannoeth gyda chydweithwyr.

5:30 yh - 7:30 yh

Mynd i weithgareddau gyda'r nos gyda chleientiaid o bryd i'w gilydd.